


Trig y Goeden



# Y Sgwînc

RITA RAY



# Y Sgwinc

RITA RAY

Lluniau gan Katinka Kew



**DRAKE**

# 1



Bore dydd Llun oedd hi. Roedd plant dosbarth Miss Bifan wrthi'n darllen eu llyfrau.

“Rhowch y gorau i ddarllen rŵan ac edrychwch arna i,” meddai Miss Bifan.





Doedd Shahnaz ddim eisiau rhoi'r gorau i ddarllen. Roedd hi'n darllen stori ddoniol am lygoden anwes aeth ar goll mewn archfarchnad. Roedd yn gwneud iddi chwerthin.

"Rydau ni'n cynnal ffair grefftau'r wythnos nesaf," meddai Miss Bifan.

"Be ydi ffair grefftau?" gofynnodd Barri Owen.



"Gwneud pethau a'u gwerthu yn yr ysgol," meddai Miss Bifan. "Mae pawb yn mynd i ddechrau arni heddiw – heblaw plant dosbarth Mrs Morgan. Maen nhw'n rhy fach."


Amser cinio roedd Shahnaz a'i ffrind pennaf, Mandy, yn sgwrsio am beth fedren nhw'i wneud. "Rydw i eisio gwneud car pren fel yr un wnes i i'r cywaith olwynion," meddai Mandy.





“Beth am weu rhywbeth?” meddai Mrs Jones, eu hoff ofalwraig ginio. “Rydw i wrth fy modd yn gweu. Fedrwch chi weu?”

“Tipyn bach,” meddai Shahnaz. “Rydw i wedi gweu tair sgarff ar gyfer tedi bêr fy chwaer ond mae hi wedi eu colli nhw.”




Y pnawn hwnnw estynnodd Miss Bifan ddarnau o ddefnydd. Roedd yno ddarnau sbotlyd a darnau rhesog, darnau pinc a darnau porffor. Roedd yno hyd yn oed ddarn efo sêr arian arno. Dywedodd Barri Owen ei fod am wneud het dewin efo'r darn hwnnw.





Yna estynnodd Miss Bifan focs yn llawn darnau o bren. Gosododd y tŵls a'r glud ar y bwrdd. Yn olaf tynnodd allan hambwrdd plastig â gweill a pheli bychain o wân o faint a lliwiau gwahanol arno.

“Rho i'r rhain allan ar y byrddau. Cewch chi ddewis at ba fwrdd rydych chi eisiau mynd. Peidiwch â rhuthro!”




Roedd y rhan fwyaf o blant eisiau defnyddio pren neu ddefnydd. Doedden nhw ddim eisiau gweu. “Mae'n anodd gweu pethau,” meddai Barri Owen.

Ond roedd Shahnaz eisiau gweu. Roedd hi eisiau gweu llygoden fel yr un yn ei llyfr stori. Cafodd hyd i belen o wân pinc llachar.

“Does yna ddim llygod pinc,” meddai Mandy.



# 2



“Caiff llygod fod yn unrhyw liw mewn stori,” meddai Shahnaz. Yn araf cododd ddeg pwyth ar ei gweill. Yna stopiodd ac edrychodd ar lun y llygoden yn ei llyfr. Pen crwn oedd gan y llygoden yn y llun.




Fedrai Shahnaz ddim gweu dim byd ond sgwariau, felly roedd gan ei llygoden binc hi ben sgwâr. Gwnaeth glustiau â ffelt. Roedden nhw'n hir ac yn denau. Yna gwnaeth wyneb i'r llygoden â botymau.





Edrychai'n iawn pan wniodd hi gyda'i gilydd.  
Ond pan driodd hi weu'r corff, aeth popeth o'i le.  
Aeth Shahnaz at Miss Bifan am help.

"Rydw i'n meddwl fod yn well iti ddechrau  
gwneud y corff eto, Shahnaz," meddai Miss Bifan.



Dechreuodd Shahnaz eto ond drysodd y  
pwythau i gyd.

"Dydi hwn ddim yn iawn," meddai Shahnaz.

"Gallet ti weu dim ond pen yn sbecian allan o  
dwll," meddai Mandy.






“Sut wyt ti’n gweu twll?” meddai Shahnaz.  
 “Medrwn i weu sach gysgu fechan i’r llygoden.  
 Gwn i sut i weu sgarff. Medra i weu sgarff a’i  
 phlygu yn ei hanner. Wedyn fe fydd yn sach  
 gysgu fach.” Aeth i nôl gwlân melyn llachar  
 oddi ar yr hambwrdd plastig.




Roedd Miss Bifan yn brysur iawn yn ceisio  
 helpu pawb.

“Darllenwch lyfr os ydych chi’n aros am help,”  
 meddai wrth bawb. “Rhowch eich gwaith ar y  
 bwrdd crefftau pan fyddwch chi wedi gorffen.”





16



17





Edrychodd Shahnaz ar Barri Owen ac meddai,  
 “Wel felly, mae’n rhaid mai sgwinc ydi o.”


“Sgwinc ydi o, sgwinc, sgwinc,  
 Yn sgwâr ac yn binc, binc, binc,”  
 canodd Barri Owen gan ddawnsio o amgylch.

Chwarddodd pawb. Roedden nhw i gyd eisiau  
 gweld y sgwinc.



Yn y bore gosododd Miss Bifan bopeth allan  
 ar y bwrdd creffttau. “Iawn,” meddai hi. “Hoffwn i  
 ichi wneud labeli ar gyfer eich gwaith. Mae Mrs  
 Morgan am ddod â’i dosbarth hi yma i weld beth  
 rydych chi wedi’i wneud.”





Roedd Shahnaz yn hoffi Mrs Morgan. Un garedig, byth yn dweud y drefn, oedd hi. Roedd Shahnaz eisiau sgwennu ei label hi'n dachus er mwyn i Mrs Morgan fedru ei ddarllen.

“Wn i ddim yn iawn sut i sgwennu ‘sgwinc’,” meddai hi. “Dydi o ddim yn y llyfr geiriau.”

“Gwn i,” meddai Mandy. “Cymer ‘sgwâr’ a ‘pinc’ a chroesi’r rhannau dwyt ti ddim eisio allan.”

3



Daeth Mrs Morgan i mewn efo’r rhai bach. Roedd golwg wedi dychryn braidd arnyn nhw i ddechrau.

“Dowch i mewn,” meddai Miss Bifan, “i weld y pethau rydan ni wedi’u gwneud.”

“Cewch chi eu prynu nhw yn y ffair grefftau yr wythnos nesaf,” meddai Mrs Morgan.





Safodd y plant bach i gyd o amgylch y bwrdd.

“Be ydi hwnna?” gofynnodd bachgen bach yn gwisgo jympar goch. Roedd o’n pwyntio at y sgwinc.

“Ym...sgwinc ydi o,” meddai Mrs Morgan gan ddarllen y label. “Be ydi sgwinc, Miss Bifan?”



“Math newydd o anifail ydi o,” atebodd Miss Bifan. “Shahnaz ddyfeisiodd o.”

“Rydw i eisio un,” meddai’r bachgen yn gwisgo jympar goch.

“Rydw i eisio un,” meddai geneth fechan yn gwisgo teits glas.

Roedd pawb eisiau un!





“Blant, blant!” meddai Mrs Morgan yn ei llais caredig. “Dim ond un sgwinc sydd yna ac mae yna ddau ddeg chwech ohonoch chi.”

Canodd y gloch amser cinio ac aeth Mrs Morgan â'r plant bach yn ôl i'r dosbarth.

“Heddwch o'r diwedd,” meddai Barri Owen.




“Wel, dydw i ddim yn meddwl y medri di weu dau ddeg chwech o sgwinciaid ar gyfer yr wythnos nesaf, Shahnaz,” meddai Miss Bifan.

“Dau ddeg pump,” meddai Barri Owen. “Mae gynnon ni un yn barod.”

Doedd Miss Bifan ddim yn gwrando. Roedd hi'n meddwl.





Rhoddodd Mrs Jones, yr ofalwraig ginio, ei phen o amgylch y drws. "Amser golchi'ch dwylo," meddai hi. Gwenodd ar Shahnaz. "Wnest ti weu rhywbeth ddoe, Shahnaz?"

"Fedrwch chi weu, Mrs Jones?" gofynnodd Miss Bifan.

"Mae Mrs Jones yn dda iawn am weu," meddai Shahnaz.



"Ga i air efo chi'n nes ymlaen, Mrs Jones?" meddai Miss Bifan.

Pan gyrhaeddodd y plant y dosbarth fore trannoeth roedd Mrs Jones yn eistedd wrth fwrdd Miss Bifan. Roedd ganddi ddau fag mawr yn llawn o wlân pinc a melyn.





“Mae Mrs Jones yn wych am weu,” meddai Miss Bifan. “Mae hi’n mynd i’n helpu ni i wneud llawer o sgwinciaid. Cewch chi i gyd wneud un.”

“Nid fi,” meddai Barri Owen. “Fedra i ddim.”

“Dangosa i iti,” meddai Shahnaz. “Tyrd i eistedd efo fi a Mandy.”

“Dangosith Shahnaz iti sut i weu, Barri,” meddai Miss Bifan. “Cawn ni stondin sgwinciaid arbennig yn y ffair grefftau.”



Erbyn y diwedd, roedd Barri Owen wedi gwneud tair sach gysgu felen.

“Da iawn,” meddai Shahnaz. “Ond ble mae’r sgwinciaid?”

“Rydw i wedi blino,” meddai Barri. “Mae gweu sgwinciaid yn waith caled.”

“Dal ati rŵan,” meddai Miss Bifan. “Neu fyddan nhw byth yn barod mewn pryd.”





Gwnaethon nhw dai bychan iddyn nhw yn y dosbarth. Gwnaethon nhw lyfr mawr, “Anturiaethau’r Sgwinc.” Tynnon nhw luniau eu sgwinciaid. Maen nhw’n mynd â’u sgwinciaid efo nhw i bobman. Maen nhw hyd yn oed yn mynd â nhw i’r archfarchnad.



## *Am yr awdur*

Rita Ray ydi f'enw i. Rydw i'n meddwl ei fod yn enw da i rywun sy'n ysgrifennu gan ei fod yn hawdd i bobl ei gofio.

Mewn ciw archfarchnad oeddwn i pan gefais y syniad am *Y Sgwinc*. Gwelais eneth fach yn chwarae efo creadur wedi ei weu ar flaen llinyn. Fedrwn i ddim dyfalu sut fath o greadur oedd o, ond doedd dim ots am hynny. Flinodd run ohonon ni tra oedden ni'n aros. Pan ysgrifennais y stori, roedd yn rhaid imi ei newid nifer o weithiau cyn ei chael hi'n iawn.



**Llyfrau Brig y Goeden eraill ar y lefel hon:**

*Bosgi Stryd y Coed* gan Rita Ray

*Shorts Jyngl* gan Irene Rawnsley

*Teigr Amryliw Mr Stofflys* gan Robin Mellor

*Y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell

*Tric y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell



# Y Sgwinc

Mae pawb wrthi'n gwneud rhywbeth ar gyfer  
y ffair grefftau. Mae Shahnaz eisiau gwneud  
rhywbeth arbennig iawn. Fydd y plant eraill  
yn cael hwyl am ei phen hi?



Brig y Goeden



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 10

ISBN 0-86174-432-2



9 780861 744329

ISBN 0 86174 432 2

**DRAKE**